Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant â ffocws

**Cylch Shotton**
**Plymouth Street**
**Ysgol Croes Atti Glannau Dyfrdwy**
**Shotton**
**Glannau Dyfrdwy**
**CH5 1JD**

**Dyddiad yr ymweliad: Tachwedd 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Cylch Shotton wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Mai 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r lleoliad o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Sefydlu gweithdrefnau cynllunio o ansawdd da i sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd da

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r lleoliad yn derbyn arweiniad a chymorth cyson gan yr awdurdod lleol ar wella eu gweithdrefnau cynllunio. Mae'r ymarferwyr yn elwa o hyn gan ddatblygu eu dealltwriaeth o gynllunio'n fwriadus, gyda'r arweinydd yn cymryd y prif gyfrifoldeb. Erbyn hyn, maent yn deall pwysigrwydd cyd-gynllunio ac yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn gwneud hyn. Maent yn trafod ac ystyried eu harsylwadau am y plant yn ofalus wrth gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol sy'n briodol ar gyfer ystod gallu'r plant.

Mae cynlluniau wythnosol yn cynnwys cyfleoedd dysgu buddiol ar gyfer gweithgareddau ffocws ac ar gyfer y ddarpariaeth barhaus a darpariaeth wedi'i chyfoethogi. Mae'r ymarferwyr yn penodi amcanion dysgu clir ar gyfer y gweithgareddau dysgu sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol. Maent yn defnyddio canllawiau cynllunio'r awdurdod lleol yn effeithiol er mwyn sicrhau bod yr amcanion dysgu'n arwain at gynnydd systematig ym medrau'r plant. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith lawn y gweithdrefnau hyn ar ddeilliannau'r plant.

### Argymhelliad 2: Cynllunio'n systematig i ddatblygu medrau Cymraeg plant

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Erbyn hyn, mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n rheolaidd ar gyfer datblygu geirfa Gymraeg y plant yn llwyddiannus, gan nodi geiriau i gyd-fynd â'r themâu yn y cynlluniau wythnosol. Mae hyn yn atgyfnerthu geirfa ac ymadroddion a gyflwynir yn ystod yr wythnos yn llwyddiannus. Enghraifft effeithiol o hyn yw trwy bwysleisio'r defnydd o 'gwpan gwag' a 'chwpan llawn' yn ystod amser byrbryd er mwyn atgyfnerthu'r dysgu o weithgaredd mathemategol. Mae'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd bwydo iaith yn gyson i'r plant a'u hannog i ymateb. Maent wedi elwa o ymweliadau rheolaidd gan swyddog iaith y Mudiad Meithrin ac maent yn gwneud defnydd buddiol o'r pecyn iaith i atgyfnerthu ac ehangu'r strategaethau i gyflwyno'r Gymraeg. Mae'r defnydd cyson o'r caneuon yn y pecyn a'r straeon perthnasol yn cyfrannu'n gadarnhaol at ymestyn medrau iaith lafar y plant, a'u hymwybyddiaeth o batrymau iaith cyffredin. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sachau stori addas er mwyn annog y plant i wrando ac ymateb yn briodol i storïau cyfarwydd.

Mae'r ymarferwyr yn cynnwys patrymau iaith sylfaenol i'w hailadrodd yn rheolaidd ar adegau penodol o'r sesiwn, er enghraifft yn ystod amser byrbryd. Drwy hyn, mae'r plant yn clywed cystrawennau addas yn fwy cyson ac yn dechrau datblygu dealltwriaeth briodol o batrymau'r iaith Gymraeg. Erbyn hyn, mae ymarferwyr yn cynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer dysgu patrymau a chystrawennau iaith yn systematig. O ganlyniad, maent yn dechrau adnabod cyfleoedd buddiol i ddatblygu iaith y plant yn unol â'u gallu ieithyddol, a'u cysylltu â meysydd dysgu eraill. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd o eirfa fathemategol wrth i blant drafod anifeiliaid yn yr ardal toes.

**Argymhelliad 3: Cryfhau arferion ac amseroedd pontio fel bod yr holl blant yn cymryd rhan yn llawn**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Gyda chefnogaeth werthfawr athrawes gyswllt yr awdurdod lleol, mae'r ymarferwyr wedi cydweithio'n effeithiol i osod trefn reolaidd i'r sesiynau. Maent yn awr yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer sicrhau trefn a rhediad llyfn i'r sesiynau ac yn nodi disgwyliadau'n glir. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth wrth i'r ymarferwyr roi cyfarwyddiadau mwy cyson a phendant i'r plant wrth iddynt symud o un gweithgaredd i'r nesaf. Trwy anogaeth yr ymarferwyr, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos eu bod yn deall y drefn ac yn ymateb yn addas. O ganlyniad, mae'r plant yn mynd ati i dacluso'n briodol ac i ffurfio rhes drefnus i olchi eu dwylo. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn addas i rediad y sesiwn ac yn cyfrannu'n llawn i weithgareddau ac ymarferion dyddiol, er enghraifft wrth ymuno yn y stori ar ddiwedd y sesiwn.

**Argymhelliad 4: Sefydlu system effeithiol i gofnodi arsylwadau ac asesiadau er mwyn bodloni anghenion dysgu plant**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn fuddiol i gofnodi cyrhaeddiad y plant wrth iddynt gychwyn yn y lleoliad. Mae hyn wedi ymestyn dealltwriaeth yr ymarferwyr o'r camau bach y mae'r plant angen eu cyflawni wrth ddysgu. Yn ogystal, yn dilyn hyfforddiant yr awdurdod lleol a thrwy arsylwi ar arfer dda mewn lleoliadau cyfagos, maent yn defnyddio system asesu ffurfiannol i gloriannu cynnydd plant unigol yn briodol. Mae'r ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau o dan y meysydd dysgu yn rheolaidd mewn ffeil unigol ar gyfer pob plentyn. Mae'r arsylwadau yn canolbwyntio'n benodol ar fedrau a deilliannau'r plant. Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi mabwysiadu gweithdrefn goleuadau traffig sy'n dynodi cynnydd pob plentyn ac yn galluogi'r ymarferwyr i adnabod y camau nesaf yn natblygiad y plant yn fuddiol. Mae'r ymarferwyr yn datblygu eu gallu i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn gynyddol effeithiol er mwyn cynllunio'n briodol i fodloni anghenion y plant. Mae'r defnydd o ganllaw cynllunio'r awdurdod lleol yn cyfrannu'n werthfawr at y broses. O ganlyniad, mae'r amcanion dysgu sy'n deillio o'r broses hon yn fwy miniog a pherthnasol i anghenion dysgu unigolion.

**Argymhelliad 5: Datblygu gweithdrefnau hunanarfarnu effeithiol er mwyn nodi a blaenoriaethau meysydd i'w datblygu yn llwyddiannus**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae arweinwyr yn defnyddio gweithdrefnau hunanarfarnu'r awdurdod lleol yn briodol gan ffocysu ar safonau'r plant yn gynyddol effeithiol. O ganlyniad, mae'r adroddiad yn dangos gwell adnabyddiaeth o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Gyda chymorth yr athrawes gyswllt, mae'r arweinydd wedi blaenoriaethu'r meysydd i'w gwella'n briodol, er enghraifft wrth wella'r cyfleoedd i'r plant ddysgu a defnyddio iaith fathemategol. Maent wedi dechrau holi barn y plant yn addas ac yn rhannu holiaduron gyda'r rhieni yn flynyddol. Mae'r ymarferion hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella'r ddarpariaeth, er enghraifft trwy wella'r cyfleoedd i hybu medrau ysgrifennu cynnar y plant a gweithio tuag at gyflawni'r argymhellion o'r arolygiad craidd. Fodd bynnag, nid yw gallu'r lleoliad i benodi blaenoriaethau addas yn annibynnol wedi datblgu'n llwyr eto.

Mae gan y lleoliad gynllun datblygu sy'n nodi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn glir ynghyd â'r cynnydd disgwyliedig. Mae'r cynllun yn cynnwys meini prawf llwyddiant, amserlen a chostau priodol, ac yn nodi pwy sydd yn gyfrifol am y gwaith ac am ei fonitro. Erbyn hyn, mae'r ymarferwyr yn gwerthuso eu cynnydd wrth weithredu'r cynllun datblygu yn addas, er enghraifft wrth arfarnu effeithiolrwydd eu gweithdrefnau asesu ffurfiannol ar yr addysgu. Maent hefyd yn dechrau ystyried effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau dysgu plant. Fodd bynnag, mae'r cynnydd tuag at gyflawni rhai o'r blaenoriaethau yn rhy araf.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r lleoliad barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.